



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Uwchradd Glan Clwyd  
Ffordd Dinbych  
Llanelwy  
Sir Ddinbych  
LL17 0RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2013**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Glan Clwyd, wedi ei lleoli yn Llanelwy yn Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu rhannau gogleddol Sir Ddinbych yn bennaf, ynghyd â rhannau o Sir y Fflint a dwyrain Conwy.

Mae 970 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 147 yn y chweched dosbarth. Bu cynnydd o 16% yn y niferoedd ers yr arolygiad diwethaf.

Daw'r disgyblion o ardaloedd trefol yn bennaf, gyda bron i 9% yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r ffigwr hwn yn arwyddocaol uwch na ffigurau ysgolion eraill y teulu o ysgolion tebyg. Tua 7% o'r disgyblion sydd â'r hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn arwyddocaol is na'r ffigwr cenedlaethol.

Mae 23% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol, gydag 1% o ddisgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 64% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai 23% o ddisgyblion sydd o gefndir lle mai'r Gymraeg yw prif neu unig iaith yr aelwyd. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth 'drochi' ar gyfer grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 sydd wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg, i'w galluogi i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brif ffrwd.

Mae ychydig o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg. Nid oes disgyblion â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Penodwyd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth i'w swyddi ym Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Clwyd yn 2012-2013 yw £4,425. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych yw £4,795 a'r lleiafswm yw £4,069. Mae Ysgol Glan Clwyd yn y chweched safle o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Glan Clwyd yn dda gan fod:

- canlyniadau arholiadau diwedd cyfnod allweddol 4 yn y prif ddangosyddion yn cymharu'n ffafriol â'r disgwyladau;
- safonau ymddygiad disgyblion yn uchel, gyda disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwersi;
- lefelau presenoldeb dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb ysgolion tebyg;
- ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda;
- darpariaeth helaeth ar gyfer lles disgyblion sy'n sicrhau cymorth ychwanegol effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol;
- yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda darparwyr eraill i gynnig ystod eang o opsiynau cyfrwng Cymraeg; a bod
- darpariaeth 'drochi' hynod o effeithiol yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfer disgyblion sydd yn trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth, gyda chymorth effeithiol gan yr uwch dîm arwain, yn darparu arweinyddiaeth gref sy'n canolbwyntio ar wella'r addysgu a chodi safonau;
- patrwm clir o welliant dros y blynyddoedd diwethaf mewn llawer o agweddau ar gyflawniadau disgyblion;
- systemau hunan arfarnu priodol sydd wedi gwreiddio'n gadarn;
- y modd y mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned ddysgu ac yn cydweithio ag ysgolion cynradd i fynd i'r afael â safonau llythrennedd yn un o'i chryfderau; a bod
- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol a blaenoriaethau cynlluniau gweithredu yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa bresennol a'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau gwelliant pellach.

## Argymhellion

- A1 Parhau i godi safonau, yn enwedig cyflawniadau disgyblion gallu uwch yng nghyfnod allweddol 3 a safonau llythrennedd ar draws yr ysgol.
- A2 Lledaenu arfer dda asesu ar gyfer dysgu, gan sicrhau bod y marcio a thargedau personol disgyblion yn eu helpu i wella cynnwys a chywirdeb eu gwaith, a gwneud cynnydd.
- A3 Sicrhau bod pob arweinydd maes yn gwneud defnydd llawn o ddata i fesur perfformiad adrannau pwnc ac fel sail i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion unigol.
- A4 Cryfhau cynlluniau gweithredu drwy fanylu ar y camau i'w cymryd a gwneud defnydd llawn o ddangosyddion meintiol i fesur cynnydd.
- A5 Parhau i ddatblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol, er mwyn cryfhau cyfraniad y llywodraethwyr i brosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn llawer o'r dangosyddion yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Ym mwyafrif y dangosyddion, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched. Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r disgyblion ar y lefelau uwch wedi gwella, ond yn gyffredinol nid ydynt yn cymharu'n ffafriol â ffigyrau'r teulu.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 dros gyfnod ymhlith neu'n agos i'r 50% uchaf o ysgolion tebyg ac yn debyg i neu'n uwch na disgwyliadau. Fodd bynnag, ac eithrio mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion eraill, gan mwyaf, yn ei gosod ymhlith y 50% isaf neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r canlyniadau yn y Gymraeg wedi gwella ond yn parhau yn is nag mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru.

Mae'r niferoedd disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig yn well na ffigurau Cymru a'r awdurdod lleol. Yn y chweched dosbarth, mae'r canlyniadau dros gyfnod yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru.

Yn y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn yr amcanion dysgu. Maent yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae medrau siarad y disgyblion yn datblygu'n briodol yn Gymraeg a Saesneg, gyda disgyblion yn cynnig ymatebion yn hyderus ar lafar i gwestiynau'r athrawon, gan ddangos gafael gynyddol ar dermau pynciol. Yn gyffredinol, gwna'r disgyblion gynnydd clir o ran ansawdd mynegiant llafar a'r gallu i gynnig ymatebion mwy estynedig. Er hynny, mae gan leiafrif o'r disgyblion afael ansicr ar gystrawennau Cymraeg. Yn y lleiafrif o wersi lle mae safonau siarad a gwrando yn uchel, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol i ymhelaethu ar eu hymatebion drwy esbonio a chynnig rhesymau wrth ymateb i gyfraniadau ei gilydd.

Mae'r lleiafrif o ddisgyblion â medrau darllen gwan adeg trosglwyddo o'r ysgolion cynradd yn gwneud cynnydd clir mewn darllen yn ystod cyfnod allweddol 3. O ganlyniad i'r cymorth ychwanegol a dderbynia'r disgyblion hyn, mae gostyngiad sylweddol yn y gyfran disgyblion sydd heb fod â'r medrau darllen disgwylidig o ystyried eu hoed. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd priodol o'u medrau darllen yn gysylltiedig â'u gwaith ar draws pynciau'r cwricwlwm. Maent yn defnyddio medrau cywain a chrynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol mewn nifer da o bynciau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau darllen disgyblion yn unol â'r disgwyliadau yn Saesneg, ond nid cystal yn y Gymraeg.

Yn rhan fwyaf y pynciau, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau ysgrifennu, ac yn cynhyrchu darnau estynedig priodol yn eu geiriau eu hunain i wahanol bwrpasau. Mae ychydig o enghreifftiau o waith o safon uchel mewn pynciau yn ychwanegol i Gymraeg a Saesneg. Mae'r modd y mae disgyblion yn datblygu gafael gadarn ar dermau pynciol yn nodwedd amlwg o'r gwaith ysgrifennu ar draws pynciau'r cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran cywirdeb mynegiant ysgrifenedig, er bod lleiafrif ar adegau yn dangos gafael ansicr ar gystrawennau Cymraeg. Ar y cyfan, gwna disgyblion gynnydd priodol o ran cywirdeb sillafu erbyn cyfnod allweddol 4, ond mae mwy na'r disgwyl o wallau sillafu yn nodweddu'r gwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 3. Yn eu gwersi llythrennedd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth o gonfensiynau gramadeg a chywirdeb iaith.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus ac yn drefnus. Er hynny, mae peth anwastadrwydd yn ansawdd diagramau a graffiau yn nodweddu ychydig o'r gwaith.

Mae'r cynnydd a wna disgyblion y cynllun 'trochi' yn gryfder arwyddocaol ac yn eu galluogi yn fuan i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyflawniadau'r disgyblion hyn yn y Gymraeg yn uchel ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, ac fel eu cyfoedion, maent yn sefyll eu harholiadau allanol ymhob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth glir o sut y gallant fyw yn iach, gyda chanran uchel o'r disgyblion yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol sy'n gwella eu lefelau ffithrwydd.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb yr ysgol, gan mwyaf, yn ei gosod ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl. Mae disgyblion yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon.

Mae safonau ymddygiad disgyblion yn uchel mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, gyda'u cwrteisi tuag at oedolion yn nodwedd gref. Dros y tair blynedd ddiwethaf, ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn barhaol ac mae lefel y gwaharddiadau am gyfnod penodol yn isel. Ym mron yr holl wersi, mae disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn ymroi yn briodol i'r gweithgareddau dysgu, gan ddangos dyfalbarhad.

Drwy waith da y cyngor ysgol a'r cynghorau blwyddyn, a thrwy gynrychiolwyr ar y corff llywodraethu, mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i ddatblygiadau yn yr ysgol. Mae nifer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ysgwyddo cyfrifoldebau swyddogion i hybu'r iaith Gymraeg, hyrwyddo ymddygiad da a chynnal gweithgarwch 'Criw Elwy' a 'Chlwb Blwyddyn 8'.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau amrywiol yn y gymuned ac yn genedlaethol yn arbennig mewn gweithgareddau cerddorol a diwylliannol gyda chryn lwyddiant. Mae'r gwaith elusennol helaeth yn tystio i'r modd y mae disgyblion yn dangos consyrn dros eraill.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw ei darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol yn llawn yn ogystal ag anghenion disgyblion a chyflogwyr. Yn sgil y cydweithio helaeth â darparwyr eraill, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau, sydd wedi cyfrannu at wella agweddau ar berfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r opsiynau i'r disgyblion yn cynnwys dewis da o gyrsiau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn cynnig cymhwyster 'sgiliau gwaith' i grŵp bach o ddysgwyr Blynyddoedd 9 i 11 sydd mewn perygl o ddadurthio. Drwy hynny a gwaith prosiect 'Potensial' mae'r dysgwyr hyn yn ennill profiadau perthnasol a chymwysterau buddiol. Mae cynnig cymwysterau mewn electroneg a seryddiaeth yng nghyfnod allweddol 4 yn ddarpariaeth benodol ar gyfer disgyblion gallu uwch.

Trwy weithgareddau 'STEM', mae'r cwricwlwm yn ymateb yn dda i ofynion marchnad lafur yr ardal leol. Mae prosiectau fel y gweithgaredd 'Y Gofod' ym Mlwyddyn 8 a her 'Fformiwla 1' yn rhan o lu o gystadlaethau a gweithgareddau llwyddiannus sy'n cael eu trefnu gan yr adrannau gwyddoniaeth, mathemateg, a dylunio a thechnoleg. Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn dilyn rhaglenni Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae sylw ar lefel ysgol-gyfan yn gysylltiedig â chynllunio ar gyfer datblygu'r medrau yn derbyn blaenoriaeth uchel. Mae'r llyfryn 'Llythrennedd yng Nglan Clwyd' yn darparu arweiniad buddiol i athrawon ar gynllunio ar gyfer y medrau, gydag effaith hyn i'w weld yn y modd y mae medrau'r disgyblion yn datblygu yn y gwersi. Mae mentrau fel y wers lythrennedd ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, yn ogystal â 'diwrnodau medrau' ddwywaith y flwyddyn, hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad medrau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol, gyda'r ddarpariaeth 'drochi' ar gyfer dysgwyr o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn nodwedd flaengar o'r ddarpariaeth. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac yn y gymuned yn darparu cyfleoedd helaeth i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'w gwersi. Mae'r ysgol hefyd ar hyn o bryd yn rhan o brosiect cwmni masnachol i hyrwyddo arferion iaith disgyblion yn y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o brofiadau i ddisgyblion ar gyfer datblygu eu dealltwriaeth o gynladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang, a'r rhan sydd ganddyn nhw i'w chwarae mewn cymdeithas.

**Addysgu: Da**

Mae cydberthynas dda rhwng athrawon a disgyblion yn nodwedd gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae athrawon yn cynllunio gwersi yn ofalus i sicrhau dilyniant o weithgareddau dysgu cydlynol, yn cynnwys darparu cyfleoedd cyson i'r disgyblion weithio ar y cyd mewn grwpiau bach. Maent yn pennu amcanion dysgu clir ar gyfer y gwersi ac yn rhannu'r rhain a meini prawf llwyddiant yn effeithiol gyda'r disgyblion.



Yn rhan fwyaf y gwersi mae natur y gweithgareddau dysgu yn sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol, gyda defnydd effeithiol o gymorthyddion dysgu i weithio gydag unigolion a grwpiau bach. Er hynny, mewn lleiafrif o wersi yn y brif ffrwd, nid yw ystod y strategaethau addysgu'n sicrhau bod disgyblion o allu uwch a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni gystal ag y gallent.

Yn yr ychydig o wersi lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae'r athrawon yn holi cwestiynau treiddgar sy'n annog disgyblion i esbonio a rhesymu i gyfiawnhau safbwynt neu syniad. Yn y gwersi hyn, mae athrawon hefyd yn gwirio dealltwriaeth y disgyblion yn barhaus yn ystod y wers. Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn ymwneud â chwestiynu a rhediad y wers yn amharu ar y cynnydd a wna'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr i dracio a monitro cynnydd y disgyblion. Mae llawer o'r arweinwyr maes yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i olrhain cynnydd a phennu targedau gwella heriol ar gyfer disgyblion sydd yn tangyflawni.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson, gyda'r mwyafrif yn cynnig adborth ysgrifenedig cadarnhaol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn y modd y mae sylwadau'r athrawon yn nodi'n benodol y camau nesaf neu'r hyn i'w wella o ran cywirdeb a chynnwys y gwaith, a sicrhau bod disgyblion yn gweithredu ar sail y cyngor.

Mewn llawer o wersi, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd defnyddiol i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae dyddiaduron y disgyblion yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol iddynt nodi camau gwella yn gysylltiedig â'u gwaith ar draws y pynciau. Er hynny, mae anwastadrwydd o ran manyldeb y targedau hyn.

Mae'r adroddiadau blynyddol i'r rhieni yn rhoi gwybodaeth glir iddynt am gynnydd eu plant, ynghyd â chyngor defnyddiol ar sut i wella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo arferion bwytia'n iach a chadw'n heini yn llwyddiannus drwy fentrau fel gwaith y grŵp cynghori maeth. Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth priodol a swyddog dynodedig yr ysgol i roi cymorth i ddisgyblion mewn perthynas â'u gofal a'u lles.

Mae'r ddarpariaeth helaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn hynod o effeithiol. Mae'n cynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion ar elfennau megis addysg ryw a pherthnasoedd, ac yn cael ei hategu'n llwyddiannus gan y gwaith mae athrawon dosbarth yn ei wneud gyda'u grwpiau tiwtor. Derbynia'r disgyblion gyngor defnyddiol ar gyfer dewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Trwy amrywiaeth o strategaethau a threfniadau effeithiol mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn y modd y mae'n ymateb i anghenion disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r prosiect 'Potensial' sy'n rhan o rwydwaith yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion disgyblion sydd wedi dadrithio ac mewn perygl o ddatgysylltu ag addysg. Mae'r ysgol yn delio yn effeithiol gydag achosion o fwlio. Mae

cysylltiadau effeithiol gydag amrediad o wasanaethau arbenigol, gyda'r modd y mae'r tîm aml-asiantaeth bugeiliol yn cydlynu gwaith y gwasanaethau cefnogi disgyblion unigol a'u rhieni neu ofalwyr yn gryfder arwyddocaol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol, gyda'r datblygiad diwylliannol yn derbyn sylw blaengar.

Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau adnabyddiaeth drylwyr o'r disgyblion hyn ac yn llunio rhaglenni cymorth addas. Derbynia'r disgyblion gynhafiaeth werthfawr gan y cymorthyddion ac anogwyr dysgu, ac mae ganddynt dargedau penodol a chyraeddadwy ar gyfer mesur eu cynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un o'i chryfderau. Mae'n gymuned ofalgar, gyda mentrau fel gweithgarwch 'Criw Elwy' yn darparu cefnogaeth helaeth i ddisgyblion ag anghenion emosiynol. Yn sgil mentrau fel hyn, sicrhau'r ysgol ei bod yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ag ystod o anghenion brofi llwyddiant academaidd a datblygu'n aelodau cyfrifol o gymdeithas. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r angen i barchu pobl sy'n wahanol a datblygu meddwl agored sy'n meithrin gwerthoedd ac yn herio agweddau.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd priodol ar gyfer dysgu. Nodwedd amlwg o'r amgylchedd yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yw'r arddangosfeydd amrywiol a lliwgar o waith a llwyddiannau disgyblion.

Yn dilyn cynnydd arwyddocaol mewn niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol yn orlawn. Nid yw rhannau helaeth o'r adeiladau yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Mae cyflenwadau priodol o adnoddau dysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r uwch dîm rheoli yn pennu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn arwain yr ysgol yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac mae gweledigaeth glir ganddo ar gyfer gwella'r ysgol, gyda ffocws cadarn ar godi safonau.

O ganlyniad i'r mentrau diweddar ar lefel ysgol gyfan, llwyddwyd i sicrhau lefel uchel o gysondeb ar draws yr ysgol yn agweddau creiddiol addysgu ac asesu. Yn ogystal, mae camau pendant wedi eu cymryd i gryfhau agweddau ar reolaeth ganol a mynd i'r afael ag agweddau ar danberfformiad. Mae effaith hyn i'w weld yn y tueddiadau clir o welliant ym mherfformiad yr ysgol mewn sawl dangosydd.

Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n briodol, gyda'r systemau rheolaeth ac atebolrwydd yn gadarn. Mae gan uwch reolwyr wybodaeth drylwyr o'u hadrannau cyswllt drwy'r cyfarfodydd ffurfiol yn wythnosol gyda'r arweinwyr maes. Mae disgwyliadau uchel, ynghyd ag elfen gref o her, yn nodweddu gwaith yr uwch dîm arwain gydag arweinwyr maes.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn briodol. Mae cyfraniad y llywodraethwyr i waith yr ysgol yn cryfhau drwy'r datblygiadau diweddar yn gysylltiedig â sefydlu is-bwyllgorau a chynllunio ar y cyd gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr. Derbynia'r llywodraethwyr adroddiadau manwl ar ddata perfformiad yr ysgol yn rheolaidd, sydd yn helpu i ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr eto'n cyfrannu'n llawn i brosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg yn gryfach nag yw o'r meincnodau hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl.

Mae'r sylw helaeth i agweddau fel llythrennedd, ynghyd â'r ddarpariaeth 'drochi' i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg yn tystio i'r modd y mae'r ysgol yn rhoi lle amlwg i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Bu'r ysgol yn rhan o'r peilot ar gyfer y profion darllen cenedlaethol ac mae gwella ansawdd yr addysgu a datblygu'n gymuned sy'n rhannu arferion da a myfyrio ar arfer broffesiynol yn derbyn blaenoriaeth uchel.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau hunan arfarnu effeithiol sydd wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae hyn yn cynnwys amserlen dair blynedd ar gyfer arfarnu ystod lawn o agweddau, gyda sylw priodol i fesur effaith ar safonau cyflawniad drwy arsylwi gwersi ac archwilio samplau gwaith ar lefel ysgol-gyfan ac adrannol. Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer gwrando ar lais y disgyblion a'r rhieni.

Defnyddia'r uwch arweinwyr ystod o ddadansoddiadau data yn effeithiol i fonitro perfformiad yr ysgol a phennu targedau gwelliant heriol. Er hynny, mae peth amrywiaeth yn y modd y mae arweinwyr maes yn defnyddio data meincnodi i nodi agweddau i'w gwella a data sy'n olrhain cynnydd disgyblion unigol.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen gryno sydd yn cynnig trosolwg clir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen rhoi sylw pellach iddo. Mae cyswllt cryf rhwng gweithgareddau hunan-arfarnu â bwriadau cynlluniau gweithredu ar lefelau ysgol gyfan ac adrannol. Mae'r cynllun gweithredu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau gwella priodol, gyda ffocws clir ar wella deilliannau. Fodd bynnag, mewn mannau pwysig, nid yw cynlluniau gweithredu'n gwneud defnydd llawn o feini prawf llwyddiant meintiol nac yn manylu digon ar y camau gweithredu ar gyfer y blaenoriaethau sy'n cael eu nodi.

Mae'r rhaglen helaeth o weithgarwch yr ysgol fel cymuned ddysgu, yn fewnol ac allanol, yn flaengar ac wedi bod wrth graidd nifer o welliannau arwyddocaol. Mae'r ysgol wedi rhannu'r gwaith o ddatblygu cymuned ddysgu ysgol yma ar draws consortiwm Gogledd Cymru. Mae'r athrawon i gyd yn aelodau o'r gymuned ddysgu ysgol ac yn elwa o raglen barhaus o drafod strategaethau addysgu yn sgil arsylwi

gwersi cymheiriaid. Arweiniodd hyn at welliant a mwy o gysondeb mewn agweddau pwysig fel llythrennedd ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r cydweithio clos ag ysgolion cynradd y dalgylch mewn perthynas â llythrennedd a chodi safonau yn y Gymraeg yn fenter effeithiol. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu cysylltiadau cychwynnol gydag ysgolion eraill y teulu o ysgolion tebyg.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni. Mae'r rhieni'n derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am yr ysgol yn rheolaidd ac mae cyfleoedd priodol iddynt fynegi eu safbwyntiau ar agweddau ar fywyd a gwaith.

Mae trefniadau effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd partner mewn perthynas ag agweddau bugeiliol a lles disgyblion. Mae cydweithio helaeth hefyd rhwng yr ysgol ag ysgolion cynradd mewn perthynas â'r pynciau craidd. Mae hyn yn hyrwyddo dilyniant a pharhad effeithiol trwy rannu methodoleg addysgu a dulliau asesu. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion cynradd partner i sicrhau dilyniant a pharhad yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd y disgyblion. Mae'r cyfleoedd buddiol i athrawon yr ysgol a'r ysgolion cynradd arsylwi gwersi llythrennedd yn ysgolion ei gilydd yn drefniant blaengar sydd yn mynd i'r afael â'r angen i wella safonau llythrennedd disgyblion adeg trosglwyddo o'r sector cynradd.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag amryw o asiantaethau a darparwyr addysg yn lleol. Mae'r partneriaethau yma wedi arwain at ddarparu ystod o gyrsgiau ar y cyd i gyfarfod â gofynion llwybrau dysgu 14-19. Hefyd, mae'r ysgol wedi arwain ar draws yr awdurdod yn y gwaith o sefydlu systemau effeithiol ar gyfer asesu cynnydd myfyrwyr ôl-16 yn ysgolion partneriaeth Dyffryn Clwyd.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i gyflwyno'r rhaglen gwricwlaidd helaeth ac yn defnyddio staff ategol yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas, gyda bron pob un yn addysgu eu pwnc arbenigol.

Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad, gyda hyn yn arwain at bennu targedau addas i'r holl staff dysgu a'r staff ategol. Mae anghenion hyfforddiant clir yn cael eu nodi ar gyfer staff, gyda chyfleoedd helaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae'r dyraniad o adnoddau cyllid yn cefnogi'n llawn y blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r rheolwr busnes, y cyfrifydd, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n hynod o effeithiol i reoli'r gyllideb yn drylwyr, gan wneud defnydd effeithiol o unrhyw arbedion. Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost effeithiol, gyda'r ysgol yn cydweithio yn helaeth gyda phartneriaid i gryfhau effeithlonrwydd y ddarpariaeth.

Mae safonau cyflawniad ac ansawdd yr addysg yn golygu bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd, dros gyfnod, yn agos i gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac yn agos i'r disgwyliadau. Bu patrwm clir o welliant dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canlyniadau ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu uwch yn adlewyrchu'r darlun yn y dangosydd pynciau craidd yn Saesneg ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg, mae'r canlyniadau yn parhau yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a ffigyrau Cymru. Mae cyflawniadau ar y lefel ddisgwyliedig yn llawer o'r pynciau eraill gan mwyaf yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu dros gyfnod.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 dros gyfnod yn y dangosydd pynciau craidd yn ei gosod gan mwyaf ymhlith y 25% isaf. Yn rhan fwyaf y pynciau yn unigol, mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod naill ai yn y 50% isaf neu'r 25% isaf, a gan mwyaf yn is na disgwyliadau ar sail cyflawniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Bu gwelliant arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf yn y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni lefel 6 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Mae'r canlyniadau yn 2012 yn agos i gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg yn Saesneg ac mewn mathemateg, ond yn parhau'n is na'r teulu mewn gwyddoniaeth ac yn enwedig yn y Gymraeg. Ac eithrio mewn mathemateg, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 7 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn gyffredinol yn parhau'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion a ffigyrau Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, ynghyd â'r dangosydd pynciau craidd, wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd. Dros gyfnod, mae perfformiad yn y ddau ddangosydd hyn wedi gosod yr ysgol naill ai ymhlith neu'n agos i'r 50% uchaf o ysgolion â lefelau tebyg o ran hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl.

Bu patrwm arwyddocaol o welliant yn y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni'r trothwy lefel 2, gyda pherfformiad yr ysgol yn uwch na'r teulu dros gyfnod, fel yn y trothwy lefel 1. Yn 2012, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn y trothwy lefel 1 ac yn y 50% uchaf yn y trothwy lefel 2. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yr ysgol ymhlith y 50% isaf yn y ddau ddangosydd hyn. Mae cyfran y disgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 wedi gosod yr ysgol gan mwyaf yn y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth ac yn y 50% uchaf mewn mathemateg, ond yn gyffredinol yn y 25% isaf yn Saesneg a'r 50% isaf yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol erbyn diwedd cyfnod allweddol 4 yn y prif ddangosyddion ar sail eu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

Yn y chweched dosbarth, mae cyflawniadau'r disgyblion dros gyfnod yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a ffigyrau Cymru.

Yn 2012, ni adawodd un disgybl yr ysgol heb o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig, a thros gyfnod mae'r ffigyrau yn well na chyfartaleddau Cymru a'r awdurdod lleol. Mae niferoedd y disgyblion y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi gadael yr ysgol yn isel.

O ystyried y darlun yn genedlaethol, mae cyflawniadau'r bechgyn a'r merched yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol. Er hynny, mae cyflawniadau'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 yn arwyddocaol is na'r merched yn y sgôr bwyntiau eang ac ar lefel 2 yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae cyflawniadau disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn is na gweddill y garfan yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch yn arwyddocaol o ystyried y niferoedd cymharol fach a'r darlun yn genedlaethol.

## **Atodiad 2**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiaduron dysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron gan 243 o ddisgyblion yr ysgol wedi eu dethol ar hap. Mae'r ymatebion ar gyfer bron y cyfan o'r cwestiynau yn debyg i neu'n uwch na'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Maent hefyd yn nodi bod digon o gyfleoedd i gadw'n heini, gyda'r rhan fwyaf yn dweud bod yr ysgol yn dysgu iddynt sut i gadw'n iach. Mae bron yr holl ddisgyblion yn dweud bod staff yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, gyda'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dweud bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda, sydd yn arwyddocaol uwch na'r ffigur cenedlaethol. Dywedant fod yr athrawon yn eu trin gyda pharch ac yn eu dysgu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Dywed y rhan fwyaf fod yr ysgol yn gwrandao ar eu barn ac yn gwneud newidiadau y maent yn eu hawgrymu.

Mae bron holl ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dweud iddynt dderbyn cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Dywed mwyafrif disgyblion Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 iddynt dderbyn cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau ar gyfer y chweched dosbarth.

#### **Ymatebion i'r holiaduron rhieni/gofalwyr**

Llenwyd yr holiaduron gan 247 o rieni/gofalwyr. Mae'r ymatebion yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol iawn â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae bron yr holl rieni yn dweud eu bod yn fodlon â'r ysgol, bod eu plant yn gwneud cynnydd da, a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae bron y cyfan yn dweud bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, sy'n arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dywed bron yr holl rieni bod staff yn disgwyl i'w plant roi o'u gorau, ac mae'r rhan fwyaf yn nodi bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, a bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.

Mae bron yr holl rieni yn nodi bod yr addysgu'n dda, gyda'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Maent hefyd yn dweud bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth i godi cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Dywed y rhan fwyaf eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Iolo Dafydd	Arolygydd Cofnodol
Ray Owen	Arolygydd Tîm
Gwyn Thomas	Arolygydd Tîm
Bethan Whittal	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Catrin Mathias	Arolygydd Cymheiriaid
Bethan Cartwright	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11



## Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A*-E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---